

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cyfeirnod yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg: 16/01/01

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg <i>(I'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i> 16/01/01				
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Tom Cleaver				
Dyddiad:	01/2016				
Arweinydd polisi:	Chris Stevens				
Manylion cyswllt:	tom.cleaver@wales.gsi.gov.uk christopher.stevens@wales.gsi.gov.uk				
Math o Raglen/Prosiect ☒ Polisi ☐ Deddfwriaeth ☐ Grant ☐ Newid busnes ☐ Seilwaith ☐ Adeiladu, Cyfalaf ☐ TGCh ☐ Arall (Nodwch isod) ☐ Prosiect neu raglen ☐ Ymchwil, gwerthuso ☐ Gwasanaethau ☐ Contractau, tendrau					
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yw'n llai na £25,000, nid oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg bob tro (gweler y canllawiau).					
O dan £25,000	£25 - £49,000	£50 - £249,000	£250,000 - £1 filiwn	Dros £1 filiwn	
☒	☐	☐	☐	☐	
O'r uchod, nodwch a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg?					
Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect barhau?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
☐	☐	☐	☐	☐	☒
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:					

Fframwaith statudol – strwythur a cherrig milltir

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen:

1. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf);
2. Rheoliadau a wneir dan y Ddeddf;
3. Codau ymarfer/canllawiau statudol.

Mae'r tair elfen hyn yn cydweithio â'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu oddi mewn iddo o fis Ebrill 2016 ymlaen.

Y Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – prif gerrig milltir

23 Hydref i 4 Rhagfyr 2015: Ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Ran 8 y Ddeddf (teitl byr: Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol).

2 Chwefror 2016: Y Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

6 Ebrill 2016: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei chychwyn.

6 Ebrill 2016: Cyhoeddi'r Cod Ymarfer terfynol ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi?

Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth a gaiff ei ystyried yn 'llwyddiant'?

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') yw creu fframwaith sy'n cyfuno ac yn moderneiddio'r gyfraith ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ceisio cynyddu'r pwyslais ar gamau gweithredu ataliol, gan ddod â phobl yn nes at benderfyniadau ynghylch y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt a mynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud â newid economaidd a demograffig.

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar unrhyw unigolion sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf i geisio hyrwyddo llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalmwr y mae arnynt angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn nodi'r diffiniad o lesiant ac mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno datganiad o'r canlyniadau llesiant y dylid eu cyflawni.

Y Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Nod y polisi hwn yw cymryd lle'r canllawiau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol ynghylch swyddogaeth cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, drwy gyflwyno cod ymarfer newydd sy'n gweithredu'r gofynion a nodir yn adrannau 144 a 145 y Ddeddf, a eglurir isod:

Mae adran 144 yn Rhan 8 y Ddeddf yn cadarnhau'r gofyniad bod yn rhaid i awdurdod lleol benodi swyddog, a elwir yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, at ddibenion ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol fel y nodir yn Atodlen 2 y Ddeddf.

Mae adran 144 hefyd yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru bennu, drwy god a gyflwynir dan adran 145 y Ddeddf, y cymwyseddau y mae'n rhaid i unigolyn eu dangos er mwyn i awdurdod lleol ei benodi'n gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

Yn ogystal ag adlewyrchu'r adrannau penodol hyn o'r Ddeddf, bydd y polisi'n arwain at god sy'n adlewyrchu nodau ehangach y Ddeddf. Bydd y cod yn gwneud hynny drwy ganolbwyntio ar rôl y cyfarwyddwr i gyflawni'r swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a nodir yn y Ddeddf. Mae'r swyddogaethau hynny'n cynnwys y canlynol:

- Sicrhau llesiant
- Asesu anghenion y boblogaeth o ran gofal a chymorth
- Darparu gwasanaethau ataliol
- Y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy
- Asesu a chymhwysedd
- Diogelu oedolion a phlant
- Plant sy'n derbyn gofal
- Cydweithredu a phartneriaeth
- Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, a gwasanaethau a gaiff eu harwain gan ddefnyddwyr
- Integreiddio rhwng ieuchyd a gofal cymdeithasol.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) er mwyn ategu'r broses graffu drwy'r Cynulliad Cenedlaethol. Canfu'r asesiad o effaith mai diben y Bil oedd creu system decach a mwy cyfiawn i bawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth, a bod cyfleoedd i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau.

Er bod y safonau presennol yn seiliedig ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, bydd safonau newydd a ddatblygwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn dod i rym ar 30 Mawrth 2016, ar yr un pryd ag y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei gweithredu.

Mae prif egwyddorion 'Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf, gan gynnwys yr egwyddor bod yn rhaid i bob unigolyn a sefydliad sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.

Bu'r asesiadau o effaith a gynhaliwyd, wrth i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y Bil, yn ystyried yr opsiwn o beidio â gweithredu'r Ddeddf. Canfu'r asesiadau hynny y byddai effeithiau negyddol sylweddol i'w cael pe na bai'r Ddeddf yn cael ei gweithredu. Roedd yr effeithiau hynny'n cynnwys anghynaliadwyedd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau demograffig, y byddai gwasanaethau'n canolbwyntio fwyfwy ar y sawl sydd mewn sefyllfa ddifrifol ac y byddent yn cael eu cyfyngu fwyfwy i'r bobl hynny, ac y byddai diffyg ymyrraeth gynnar a chymau atal yn y system.

Y Cod Ymarfer ar Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Er mwyn ystyried cynnwys y cod, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp cyfeirio yn ystod haf 2015 a oedd yn cynnwys uwch-randdeiliaid allweddol. Bu'r grŵp yn gweithio gyda swyddogion i ystyried y 'Canllawiau Statudol ar Swyddogaeth ac Atebolrwydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol' a geir ar hyn o bryd, a gyhoeddwyd yn 2009, a bu'n datblygu opsiynau ar gyfer diweddarau'r canllawiau yn unol â'r gofynion newydd sydd yn y Ddeddf. Mae casgliadau'r grŵp cyfeirio wedi cyfrannu'n helaeth i'r gwaith o ddatblygu'r cod ymarfer drafft.

Mae effaith peidio â datblygu cod ymarfer dan y Ddeddf wedi'i hystyried. Disgwylir i bob rhan o'r Ddeddf, gan gynnwys adran 145, ddod i rym ym mis Ebrill 2016. Byddai peidio â chyflwyno cod i bennu swyddogaeth, atebolrwydd a chymwyseddau'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, fel sy'n ofynnol gan adran 145 y Ddeddf, yn arwain at sefyllfa lle na fyddai gan awdurdodau lleol ganllawiau cyfredol i'w dilyn ar gyfer swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol pan fyddai'r Ddeddf yn cael ei chychwyn. Felly, bwriedir cyflwyno cod ymarfer terfynol ar swyddogaeth y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol ym mis Ebrill 2016.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – iaith fyw: iaith byw?

Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â llawer o'r nodau a eglurir yn 'Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012-17'. Er enghraifft, mae'r rheoliadau sy'n ymwneud ag asesu anghenion unigolion dan Ran 3 y Ddeddf, sef Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru), yn darparu ar gyfer pump o'r nodau hynny, sef:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o werth yr iaith
- Cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Gwella gwasanaethau Cymraeg ar gyfer dinasyddion
- Cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg ddigidol.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd drosfwaol yn adran 6(2)(c) sy'n nodi bod

yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, **sy'n cynnwys iaith**.

Mae prif egwyddorion 'Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf, gan gynnwys yr egwyddor bod yn rhaid i bob unigolyn a sefydliad sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.

Roedd Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru yn mynnu y dylai asesiad o effeithiau'r Ddeddf ar y Gymraeg gael ei gynnal mewn Memorandwm Esboniadol.

Dangosodd yr asesiad nad oedd yn debygol y byddai'r Ddeddf yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg, ac oherwydd mai diben y Ddeddf yw creu system decach a mwy cyfiawn i bawb sy'n gymwys i gael gofal a chymorth, bod cyfleoedd yn bodoli i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn ystod y cam cynllunio cychwynnol?

hy ar siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg eu hiaith, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Bydd y Ddeddf yn cael effaith gyffredinol gadarnhaol ar y Gymraeg, oherwydd ei bod yn cynnwys dyletswydd drosfwaol yn adran 6(2)(c) sy'n nodi bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, **sy'n cynnwys iaith**.

I'r perwyl hwnnw, rydym yn disgwyl y bydd pobl yn gallu cael mynediad yn rhesymol i wasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg, os byddant yn dymuno.

Mae'r Ddeddf hefyd yn diffinio llesiant, ac mae'r diffiniad hwnnw'n cynnwys 'sicrhau hawliau a hawlogaethau'. I lawer o siaradwyr Cymraeg, bydd hynny'n golygu gallu defnyddio eu mamiaith, a fydd yn eu galluogi i gyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cyfartal.

Dan delerau Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd asesiad o effeithiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ystod proses y Bil. Ar y pryd, canfu'r asesiad ei bod yn annhebygol y byddai effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Diben y Ddeddf yw creu system decach a mwy cyfiawn i bawb sy'n gymwys i gael gofal, a dylai gefnogi cyfleoedd i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi'i seilio ar gryn dipyn o gynnwys Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, a'r ddeddfwriaeth honno sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol trosfwaol ar gyfer y Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus: *rhaid i bob unigolyn a sefydliad sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg a bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol*.

Cafwyd ymrwymiad Gweinidogol y bydd y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y rheoliadau a'r canllawiau sy'n ategu'r Ddeddf. O ganlyniad, caiff y Rheoliadau, y Codau Ymarfer a'r Canllawiau Statudol i gyd eu seilio ar yr egwyddorion a nodir yn y

Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswydd drosfwaol yn adran 6(2)(c) sy'n nodi bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith.

Ar wahân i'r effeithiau cadarnhaol trosfwaol a achosir gan y Ddeddf, nid oes unrhyw effeithiau penodol ar y Gymraeg wedi'u canfod gan swyddogion yng nghyswllt y cod ymarfer ar gyfer cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol.

Yn rhan o'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynhaliwyd ymgynghoriad dros gyfnod o chwe wythnos ynghylch y cod drafft rhwng 23 Hydref a 4 Rhagfyr 2015. Ochr yn ochr â chwestiynau penodol ynghylch cynnwys y cod drafft, cafodd cwestiwn cyffredinol ei gynnwys a oedd yn galluogi rhanddeiliaid i roi gwybod am unrhyw faterion eraill yr hoffent dynnu sylw atynt, er enghraifft yr effeithiau y gallai'r cod arfaethedig eu cael ar y Gymraeg.

Cafwyd 17 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac nid oedd sôn yn yr un ohonynt am bryderon ynghylch y Gymraeg.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau sydd â diddordeb yn y Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Mae'r Ddeddf yn berthnasol i bawb yng Nghymru y mae arnynt angen gofal a chymorth, ac i ofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Bydd dyletswyddau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn arwain at oblygiadau i awdurdodau lleol a chyrff partner, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, y bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a'u gofalwyr y gallai fod angen gofal a chymorth arnynt hwythau hefyd.

Mae'r cod wedi'i seilio ar egwyddorion y Ddeddf sy'n nodi bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith. I'r perwyl hwnnw rydym yn disgwyl y bydd pobl, os byddant yn dymuno, yn gallu cael mynediad yn rhesymol yn Gymraeg i holl wasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol y mae'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn atebol amdanynt.

Mae'r cod drafft wedi'i ddatblygu gyda'r grŵp cyfeirio ynghylch cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, a oedd yn cynnwys aelodau o ystod o sefydliadau ar draws y sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol.

Os na chwblhawyd asesiad, neu os na chanfuwyd effeithiau, rhowch adroddiad llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn Nhribiwnlys y Gymraeg yn y dyfodol.)

Ni chafodd unrhyw effeithiau sylweddol ar y Gymraeg eu canfod wrth ddatblygu'r cod drafft, gan y swyddogion polisi na'r grŵp cyfeirio a alwyd ynghyd i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cod drafft. Yn ogystal, ni chafodd unrhyw bryderon nac effeithiau ar y Gymraeg eu nodi gan rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn ystod y cam cynllunio cychwynnol?

(ee gofynion o ran data, yr angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu'n allanol â grwpiau Cymraeg eu hiaith, nodi rhestr ymgynghori neu randdeiliaid, yr angen i gysylltu ag Uned y Gymraeg i gael cyngor)

Yn rhan o strategaeth ddilynol y fframwaith '*Mwy na geiriau*', canfu swyddogion fod gofyn ystyried ymhellach a oedd angen cynnwys cyfeiriadau ychwanegol at Safonau'r Gymraeg yn y cod drafft.

Sicrhawyd bod y ddogfen ymgynghori a'r cwestiynau ynghylch y cod drafft ar gael yn Gymraeg ar wefan allanol Llywodraeth Cymru. Bydd y cod terfynol hefyd ar gael yn Gymraeg.

CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad o Effaith

Crynowch yr asesiad manwl o effaith a gynhaliwyd ynghyd â'r sgorau a bennwyd.

Oherwydd nad oes unrhyw effeithiau sylweddol wedi'u canfod yn ystod yr asesiad cychwynnol o effaith, nid oes adnodd asesu risg ar gyfer effeithiau wedi'i gwblhau.

Effeithiau cadarnhaol:

Mae'r cod wedi'i seilio ar egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n nodi bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn, sy'n cynnwys iaith. Disgwylir i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, fel yr unigolyn sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sicrhau bod unrhyw unigolion y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt yn gallu cael mynediad yn rhesymol i wasanaethau gofal a chymorth yn Gymraeg, os byddant yn dymuno.

Mae'r cod yn mynnu bod y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch y modd y mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn cael eu harfer. Yn rhan o'r adroddiad blynyddol hwn, bydd yn ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth sydd ar gael yn Gymraeg a'r modd y maent yn gweithredu '*Mwy na geiriau*'. Drwy fynnu bod materion ynghylch y Gymraeg yn cael eu hystyried yn rhan o'r adroddiad, bydd y cod yn sicrhau bod materion ynghylch y Gymraeg yn cael proffil digon uchel mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Mae'r cod hefyd yn mynnu bod yn rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod gwasanaethau ataliol yn cael eu darparu neu'u trefnu yn benodol er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion o ran gofal a chymorth a nodwyd gan yr asesiad poblogaeth, fel sy'n ofynnol gan Ran 2 y Ddeddf. Dylai hynny gynnwys ystyried sut y caiff unrhyw wasanaethau ataliol eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Effeithiau negyddol:

Mae'r cod yn nodi bod yn rhaid i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol sicrhau y caiff gwasanaethau ataliol eu darparu. Fodd bynnag, efallai na fydd digon o siaradwyr

Cymraeg ar gael i ateb y galw sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ataliol drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai hynny, yn ei dro, roi mwy o bwysau ar y gweithlu presennol sy'n siarad Cymraeg i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal, efallai na fydd sgiliau Cymraeg staff gofal a chymorth yn yr awdurdod lleol yn ddigon da i gynnig gwasanaeth llawn drwy gyfrwng y Gymraeg; gallai hynny arwain at ragor o anghenion o ran hyfforddiant i'r staff hynny sy'n siarad Cymraeg.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg, ee statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Bydd safonau newydd y Gymraeg a ddatblygwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn dod i rym ar 30 Mawrth 2016, ychydig cyn i'r cod ymarfer ar gyfer cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a'r Ddeddf ehangach gael eu rhoi ar waith ym mis Ebrill.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae prif egwyddorion '*Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol*' wedi'u hymgorffori yn y Ddeddf, gan gynnwys yr egwyddor bod yn rhaid i bob unigolyn a sefydliad sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg.

Bydd ymgorffori'r prif egwyddorion hyn yn y Ddeddf, ynghyd â'r gofyniad bod yn rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth dan y Ddeddf, gan gynnwys y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (sy'n cynnwys iaith), yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu hannog i wneud yn fawr o gyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg i bob dinesydd sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn yr awdurdod lleol.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Yn 2011 cyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg adroddiad, sef '*Y Gymraeg a Gwasanaethau Cymdeithasol*', a oedd yn nodi'r canlyniadau i bobl nad oeddent yn cael gofal yn eu dewis iaith. Roedd yr adroddiad yn datgan bod "tystiolaeth fyd-eang yn dangos effaith niweidiol rhwystrau iaith ym maes gwasanaethau cymdeithasol – diffyg mynediad i wasanaethau cymdeithasol; bodlonrwydd y defnyddiwr; diffyg perthynas therapiwtig; anawsterau cael cydsyniad â'r gofal; problemau dilyniant gofal wrth i'r defnyddiwr gael ei gyfeirio o un asiantaeth i'r llall; diffyg ansawdd y gofal; diogelwch y defnyddiwr; statws ieuchyd y defnyddiwr; costau'r gofal – costau personol i'r defnyddiwr a chostau ariannol i'r gwasanaeth".

Cyhoeddwyd adroddiad a oedd yn dwyn y teitl '*Profiad Siaradwyr Cymraeg o'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal*' gan IAITH yn 2012¹. Fe'i lluniwyd ar ran Llywodraeth Cymru a Chyngor Gofal Cymru. Roedd yn canolbwyntio ar brofiadau defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a oedd yn perthyn i'r pedwar grŵp â blaenoriaeth a nodwyd (sef plant; pobl hŷn; defnyddwyr gwasanaeth ym maes ieuchyd meddwl, gan gynnwys pobl â dementia; a phobl ag anableddau dysgu) ac roedd yr ymchwiliad yn cadarnhau'r cysylltiad rhwng iaith a gofal.

¹[Profiad Siaradwyr Cymraeg o'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal](#)

Bu'r adroddiad yn archwilio enghreifftiau sy'n awgrymu y gall ansawdd gofal ar gyfer defnyddwyr agored i niwed gael ei beryglu gan fethiant i gyfathrebu yn eu dewis iaith. Ymdrinnir hefyd â rôl hanfodol iaith fel offeryn asesu a diagnosio ac ystyrir bod dibynnu ar gyfieithu, gan ddefnyddio aelodau'r teulu i gyfleu gwybodaeth rhwng y defnyddiwr gwasanaeth a'r gweithiwr proffesiynol, yn sefyllfa sy'n llawn problemau a allai effeithio ar natur yr asesiad a gynhelir. I ddefnyddwyr a gofalwyr, ystyrir bod y gallu i gyfathrebu yn eu dewis iaith yn effeithio ar y modd y maent yn ffurfio perthynas glinigol a therapiwtig ag eraill.

Canfu'r ymchwili hefyd fod ymatebwyr yn teimlo bod cael gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn llawer o ardaloedd yn fater o hap a damwain yn aml, ac mai prin yw'r achosion lle cânt eu cynllunio. Nid oes gan aelodau unigol o staff ar sawl lefel yr hyder i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg mewn cyd-destun proffesiynol; efallai nad yw asiantaethau cyflogi'n cydnabod y sgiliau hyn nac yn rhoi gwerth arnynt ac, o ganlyniad, bod sgiliau iaith unigol yn parhau'n sgiliau cudd na cânt eu defnyddio. Ymddengys fod y diwylliant sydd ohoni yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn seiliedig ar y disgwyliad y bydd defnyddwyr gwasanaeth neu ofalwyr yn nodi'r angen ac yn creu'r galw am wasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na bod dyletswydd ar ddarparu'r gwasanaeth i'w cynnig a'u darparu. I lawer o unigolion sy'n agored i niwed ac sydd wedi'u dadrymuso, sy'n perthyn i'r grwpiau â blaenoriaeth yr oedd yr ymchwili yn ymdrin â nhw, mae'r gallu i fynegi eu hangen a chreu galw y tu hwnt iddynt. Maent yn aml yn dibynnu ar ofalwyr a pherthnasau i wneud hynny drostynt. Nid yw'r cymorth hwnnw ar gael i lawer ohonynt. Felly, mae ar y defnyddwyr gwasanaeth sydd fwyaf ar eu pen eu hunain ac sydd fwyaf agored i niwed angen mynediad i wasanaethau a systemau sylfaenol sy'n ddigon cadarn a dibynadwy i adnabod eu hanghenion o ran iaith ac ymateb yn briodol iddynt. Mae parch at urddas unigolion yn mynnu hynny.

Mae adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn darparu tystiolaeth o ymchwili Llais Defnyddwyr Cymru, a gyflawnwyd yn 2010, sef '*Gwasaniaithau: Defnyddwyr â'r iaith Gymraeg*'. Mae'n nodi fel a ganlyn:

"Gan orffen ar ddarn ymchwili yn ymwneud â defnyddwyr, gwnaeth Llais Defnyddwyr Cymru arolwg o bersbectif siaradwyr Cymraeg yn 2010. Gofynnwyd i sampl o 759 o siaradwyr Cymraeg am eu barn ynglŷn â gwasanaethau Cymraeg. Wrth drafod defnyddio'r Gymraeg roedd dros chwarter yn nodi nad oedd gwasanaethau Cymraeg ar gael: "Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid gwella gwasanaethau cyfredol, yr awgrym mwyaf yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat oedd sicrhau bod mwy o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael. Dywedodd 28% o'r holl ymatebwyr mai dyma oedd y rheswm nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg fwy wrth ymdrin â'r sector cyhoeddus." O'r gwaith ansoddol ddigwyddodd fel rhan o'r gwaith ymchwili yma canfuwyd hefyd nad oedd gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnig."

Mae '*Mwy na geiriau*' yn cydnabod mai cyfrifoldeb gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu anghenion defnyddwyr o ran iaith; fe'i gelwir yn "gynnig rhagweithiol". Mae'r ddeddfwriaeth a'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol a'r fframwaith mesur perfformiad yn sicrhau bod y 'cynnig rhagweithiol' yn rhan annatod o wella canlyniadau llesiant i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Bydd safonau newydd y Gymraeg yn dod i rym ar gyfer cyrff gwasanaethau cyhoeddus ym mis Mawrth 2016, sef y

cyfnod y bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael ei gweithredu. Bydd y safonau hyn yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i osod dyletswyddau ynghylch y Gymraeg ar awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru. Bydd hynny'n cynnig ysgogiad o'r newydd i gyrrff gwasanaethau cyhoeddus groesawu'r Gymraeg a'i hymgorffori mewn gwasanaethau pob dydd, a bydd hynny'n wir ar gyfer pobl o bob oed, o blant i bobl hŷn.

Mae'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn disgrifio'r broses, ond ychydig iawn o dystiolaeth a geir o'r effaith a gaiff gwasanaethau cymdeithasol ar fywydau pobl a ph'un a yw'r gwasanaeth yn gwella canlyniadau i bobl. Bydd dyletswyddau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn arwain at oblygiadau i awdurdodau lleol a chyrrff partner, gan gynnwys byrddau iechyd lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, y bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a'r gofawyr y mae arnynt angen cymorth yng Nghymru.

Bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ddarparu gwasanaeth mwy penodol sy'n briodol i bob unigolyn, ac mae hynny'n cynnwys darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r cynnig rhagweithiol. Bydd y canlyniadau a'r fframweithiau mesur perfformiad dan y Ddeddf yn mesur effaith hynny.

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar y Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei symud yn ei flaen ar sail yr asesiad o effaith/asesiad risg?

Cadarnhaol: ☒
Negyddol: ☐
Niwtral: ☐
Anhysbys: ☐

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad o Effaith

- | | |
|--|-------------------------------------|
| 1. Dim newid sylweddol | ☒ |
| 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | ☐ |
| 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | ☐ |
| 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | ☐ |

Os rhoddwyd ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:

Sut y byddwch yn ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg? Nodwch fanylion y mesurau lliniaru/camau gweithredu/dewisiadau amgen er mwyn lleihau effeithiau negyddol a chynyddu canlyniadau cadarnhaol:

Amherthnasol

Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau yr ydych yn dymuno eu gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg?

Yn rhan o'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynhaliwyd ymgynghoriad dros gyfnod o chwe wythnos ynghylch y cod drafft rhwng 23 Hydref a 4 Rhagfyr 2015. Ochr yn ochr â chwestiynau penodol ynghylch cynnwys y cod drafft, cafodd cwestiwn cyffredinol ei gynnwys a oedd yn galluogi rhanddeiliaid i roi gwybod am unrhyw faterion eraill yr hoffent dynnu sylw atynt, er enghraifft yr effeithiau y gallai'r cod drafft eu cael ar y Gymraeg.

CAM 3: AR ÔL YMGYNGHORI AC WRTH BARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau yr ydych wedi'u gwneud er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd sy'n ymwneud â'r Gymraeg?

Roedd y cod drafft yn destun ymgynghoriad ffurfiol chwe wythnos o hyd rhwng 23 Hydref a 4 Rhagfyr 2015, a oedd yn cynnwys cyflwyniad a sesiwn holi ac ateb gyda chyfarwyddwyr o bob cwr o Gymru. Cafwyd 17 o ymatebion ysgrifenedig sylweddol i'r ymgynghoriad gan ystod eang o sefydliadau statudol, grwpiau trydydd sector a chyrrff proffesiynol. Roedd y rheini'n cynnwys 14 o awdurdodau lleol, Cymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE) ac ADSS Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol yn gyffredinol i'r holl gynigion, ac roedd yr awgrymiadau a gafwyd yn canolbwyntio ar fanylion, ychwanegiadau bach a newidiadau i'r testun. Cafodd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau eu derbyn oherwydd barnwyd eu bod yn cyd-fynd â'r safbwynt polisi cyffredinol. Mae'r adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad, sy'n nodi manylion yr ymatebion a gafwyd i bob un o'r cwestiynau a'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb iddynt, wedi'i gyhoeddi yn y fan hon:

<http://llyw.cymru/consultations/healthsocialcare/code-of-practice/?lang=cy>

Nid oedd sôn yn yr un o'r 17 o ymatebion i'r ymgynghoriad am unrhyw faterion neu bryderon ynghylch y Gymraeg. Felly, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r cod o safbwynt iaith.

Sut y byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth i'r polisi hwn gael ei weithredu?

Mae'r cod yn cynnwys gofyniad i lunio adroddiad blynyddol gan gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ynghylch y modd y mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn cael eu harfer. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu asesu'r graddau y caiff y cod ei weithredu, drwy ddadansoddi'r adroddiadau hyn.

Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth sydd ar gael yn Gymraeg a'r modd y maent yn gweithredu '*Mwy na geiriau*'. Dylai hynny olygu bod modd monitro'n benodol y ddarpariaeth sydd ar gael yn Gymraeg mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Nodwch sut y byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Bydd effeithiau'r cod yn parhau i gael eu dadansoddi drwy'r broses o adrodd yn flynyddol a ddisgrifiwyd yn yr ymateb blaenorol. Bydd y broses hon yn golygu bod modd parhau i fonitro effaith y cod yn flynyddol.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg.

Amherthnasol.

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

**Dileer fel y bo'n briodol:*

***Mae'r polisi hwn / ~~Nid yw'r polisi hwn~~ yn effeithio ar y Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.**

Enw:

Chris Stevens

Adran:

Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Dyddiad(au):

Ionawr 2016

Llofnod:

Chris Stevens

Dyddiadau adolygu arfaethedig:
Ebrill 2017

CYMERADWYAETH AC ADOLYGIAD YR UWCH BERCHENNOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn ystod y cam datblygu hwn. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ailasesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol drwy gydol oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd

Margaret Provis
(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Ionawr 2016